## ATODLEN 2

Rheoliad 23(1)

### Rheolau ynghylch Cyfarfodydd a Thrafodion yr Ymddiriedolaeth

**1.** Cynhelir cyfarfod cyntaf yr Ymddiriedolaeth ar y cyfryw ddiwrnod ac yn y cyfryw fan ag y caiff y cadeirydd ei bennu a'r cadeirydd fydd yn gyfrifol am gynnull y cyfarfod.

**2.**—(1) Caiff y cadeirydd alw cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth ar unrhyw adeg.

(2) Os bydd y cadeirydd yn gwrthod galw cyfarfod ar ôl i gais i'r perwyl hwnnw, a lofnodwyd gan draean o leiaf o nifer cyfan yr aelodau, gael ei gyflwyno iddo, neu os nad yw'n galw cyfarfod o fewn saith niwrnod ar ôl i gais o'r fath gael ei gyflwyno iddo, ac yntau heb fod wedi gwrthod felly, rhaid i'r cyfryw draean neu fwy o aelodau alw cyfarfod yn ddiymdroi.

(3) Cyn pob cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth, rhaid i hysbysiad o'r cyfarfod, yn nodi'r busnes y bwriedir ei drafod ynddo, ac wedi ei lofnodi gan y cadeirydd neu gan swyddog i'r Ymddiriedolaeth a awdurdodwyd gan y cadeirydd i lofnodi ar ei ran, gael ei ddanfon i bob cyfarwyddwr neu ei anfon drwy'r post i breswylfa arferol y cyfryw gyfarwyddwr, fel ei fod ar gael i bob cyfarwyddwr ddeng niwrnod o leiaf cyn y cyfarfod.

(4) Ni fydd diffyg cyflwyno'r hysbysiad i unrhyw gyfarwyddwr yn effeithio ar ddilysrwydd cyfarfod.

(5) Yn achos cyfarfod sy'n cael ei alw gan gyfarwyddwyr yn niffyg y cadeirydd, rhaid i'r hysbysiad gael ei lofnodi gan y cyfarwyddwyr hynny ac ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod yn y cyfarfod ac eithrio'r busnes a bennir yn yr hysbysiad.

**3.**—(1) Mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolaeth, y cadeirydd, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu.

(2) Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd (os o gwbl) yn absennol, bydd y cyfryw gyfarwyddwr anweithredol ag y byddo'r cyfarwyddwyr sy'n bresennol yn ei ddewis yn llywyddu.

(3) Rhaid i bob cwestiwn mewn cyfarfod gael ei benderfynu gan fwyafrif pleidleisiau'r cyfarwyddwyr sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio ar y cwestiwn ac, os yw'r pleidleisiau'n gyfartal, bydd gan y person sy'n llywyddu ail bleidlais a fydd yn bleidlais fwrw.

(4) Rhaid cofnodi enwau'r cyfarwyddwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod.

(5) Ni chaniateir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth onid oes traean o nifer cyfan y cyfarwyddwyr yn bresennol gan gynnwys, ar neu ar ôl y dyddiad gweithredol, un cyfarwyddwr gweithredol a dau gyfarwyddwr anweithredol o leiaf.

(6) Rhaid llunio cofnodion trafodion cyfarfod a'u cyflwyno er mwyn cael cytundeb arnynt yn y cyfarfod nesaf sy'n dilyn, lle y cânt eu llofnodi gan y person sy'n llywyddu ynddo.

**4.** Os yw swydd cyfarwyddwr gweithredol yn cael ei rhannu rhwng mwy nag un person yn unol â rheoliad 7—

(a) bydd gan y ddau berson yr hawl i fynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth;

(b) bydd y naill neu'r llall o'r personau hynny'n gymwys i bleidleisio os byddant yn cytuno â'i gilydd;

(c) os byddant yn anghytuno â'i gilydd ni fydd pleidlais yn cael ei bwrw;

(ch) caiff presenoldeb y naill berson neu'r llall neu'r naill berson a'r llall gyfrif fel un person at ddiben paragraff 3(5) o'r Atodlen hon.